COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD / ADRODDIAD

DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. DLI 056

Amseru: Brys – gofynnwyd am benderfyniad erbyn terfyn amser IOM 8.11.17

Teitl: Achos Busnes Cynllun Braenaru Merched IOM Cymru Business 2018-22

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: e.e. Prif Ddeddfwriaeth, Gofyniad Statudol, Cyllid, Perfformiad, Cwynion ayyb. (diwygiwch fel y bo'n briodol)
Comisiynu

Crynodeb Gweithredol:
Fel yr amlinellir yng nghofnod penderfyniad DLI043, yn gynnar yn 2015, sicrhaodd tîm IOM Cymru swm sylweddol o arian i dreialu'r cynllun Braenaru Merched ledled Cymru. Daeth cyllid y Swyddfa Gartref i ben ar 31 Mawrth 2017 a sicrhawyd cytundeb drwy Fwrdd IOM Cymru y byddai pob un CHTh yn etifeddu ei drefniadau lleol ei hun o 1 Ebrill 2017 er mwyn galluogi'r cynlluniau peilot i barhau. Ar gyfer Dyfed-Powys, roedd hyn yn golygu parhau â'r cytundeb â Gwalia am £20,000 y flwyddyn am y cyfnod 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018.

Mae tîm canolog y cynllun Braenaru Merched wedi bod yn datblygu achos busnes yn 2017/18 ar gyfer datblygu gwaith y cynllun ymhellach. Mae'r iteriad diweddaraf yn cynnig bod Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn cytuno'n ffurfiol ar gyfraniad o fewn amlen ariannu flynyddol o rhwng £133,658 a £153,037, sy'n gyfwerth â chyfanswm ymrwymiad dros yr achos busnes 4 blynedd o rhwng £543,633 a £612,150.

Mae'r CHTh wrthi'n adolygu pob gwasanaeth sydd wedi ei gomisiynu gyda golwg ar sicrhau bod y ffocws allweddol ar adnabod a mynd i'r afael â bregusrwydd adeg y pwynt cyswllt cyntaf gyda dioddefwyr a throseddwyr. Yn anffodus, nid yw'r achos busnes a ddarperir yn cefnogi'r ymagwedd hwn; drwy ddarparu gwasanaeth i droseddwyr benywaidd yn unig, byddai'n arwain at gyfle coll ar gyfer pob carfan arall sy'n mynd mewn i'r ddalfa neu'n mynychu'r wirfoddol.

Ar ôl adolygu'r ymagwedd a gymerir gan Heddlu Durham yn fanwl, mae'r CHTh wedi ymrwymo i beilot o'r ymagwedd brysbennu dalfeydd ehangach yn Nyfed-Powys o Ebrill 2018 (gweler penderfyniad PB T2 45). Bydd y cynllun hwn yn caniatáu ar gyfer cyflwyno'r prif gamau a amlinellir yn yr achos busnes cynllun Braenaru Merched (asesu, cyfeirio, cymorth/ymyrraeth a chydlynu) a bydd yn darparu'r gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar y cyfeiriwyd atynt ond yn sicrhau bod cyflwyno'n canolbwyntio ar bob carfan troseddwyr cymwys.

Yn seiliedig ar yr uchod, a'r papur briffio manwl a gyflwynwyd i'r CHTh, argymhellir nad yw'r CHTh yn ymrwymo i ariannu parhad yr achos busnes cynllun Braenaru Merched fel y cynigir. Fodd bynnag, yn amodol ar ganlyniadau llwyddiannus y peilot yn Nyfed-Powys, ystyrir ehangu'r elfen ddargyfeiriol i ymagwedd system gyfan ar gyfer pob troseddwr yn Nyfed-Powys, ac ar yr adeg hon, gall fod cyfleoedd i adlinio â model IOM Cymru. Gan hynny, cynigir parhau i sgwrsio â thîm IOM Cymru mewn perthynas â chynnydd y ddwy raglen waith.

Argymhelliad:
Nad yw'r CHTh yn ymrwymo i ariannu parhad achos busnes cynllun Braenaru Merched fel y cynigir. Bod y CHTh yn parhau i ymgysylltu â thîm IOM Cymru er mwyn adolygu cynnydd yn erbyn y rhaglenni gwaith a sicrhau bod unrhyw gyfleoedd pellach ar gyfer aliniad yn cael eu huchafu.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion NOLAN ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod / ~~Dydw i ddim yn cymeradwyo'r cais uchod~~ / Nodaf y wybodaeth yn yr adroddiad (dileer fel y bo'n briodol)

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 4. 12. 2017